# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Chwefror 2017

Amser: 08.30 - 09.15

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Paul Davies AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Sharon Bounds, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Bydd Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad am Chwaraeon Cymru (45 munud)

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn gwneud datganiad ynghylch Cymunedau Cryf – Camau Nesaf (45 munud)

Mynegodd David Rowlands siom nad oedd y pleidiau eraill wedi dod at grŵp UKIP i gyd-gyflwyno'r cynnig ar forlynnoedd llanw ar gyfer y ddadl ddydd Mawrth, a gyflwynwyd gan y Blaid Lafur, Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr.

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Esboniodd Jane Hutt y bydd y Prif Weinidog yn mynd ar ymweliad ag UDA ddydd Mawrth 28 Chwefror ac na fyddai'n bresennol yn y Cyfarfod Llawn i ateb cwestiynau'r wythnos honno. Bydd Jane Hutt yn ateb cwestiynau yn ei le. Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes gytuno ar ddull cyson ynghylch pa Aelodau a fyddai'n holi cwestiynau i Arweinydd y Tŷ yn ystod Cwestiynau'r Arweinwyr.

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 15 Mawrth 2017 –**

- Dadl ar Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ynghylch Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil Diddymu'r Hawl i Brynu (Cymru) at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer trafodaeth Cyfnod 1.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio'r penderfyniad ar amserlen y Bil tan un o'r cyfarfodydd yn y dyfodol, i roi amser i ymgynghori â'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

## 5 Rheolau Sefydlog

### 5.1 Diwygio Rheolau Sefydlog: Proses y gyllideb

Trafododd y Rheolwyr Busnes bapur yn nodi'r cynigion, a bennwyd gan y Cynulliad a swyddogion y Llywodraeth, i ddiwygio prosesau cyfredol y gyllideb yn unol â'r

argymhellion a wnaed yn sgil ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid blaenorol i arferion gorau o ran y gyllideb.

Cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor â'r model a drafodwyd gan swyddogion Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys faint o amser sydd ar gael i graffu ar y gyllideb, a'r rhaniad rhwng cynigion amlinellol a manwl y gyllideb.

Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion am sut y byddai'r ddadl ynghylch y gyllideb ddrafft yn gweithio'n ymarferol pe bai'n dilyn cynnig gan y Pwyllgor Cyllid, cyn cytuno ar ddull a ffefrir yn y Rheolau Sefydlog.

Nododd y Rheolwyr Busnes yr awgrym yn yr adroddiad arferion gorau i gydnabod y cysylltiad rhwng cymeradwyo penderfyniadau treth a chymeradwyo cynlluniau cyllideb o fewn y Rheolau Sefydlog, a chytunwyd nad oes angen ysgrifennu unrhyw ddibyniaeth yn y Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd, cyn datganoli treth incwm.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai’r Ysgrifenyddiaeth yn cyflwyno cynigion ar gyfer diwygio'r Rheolau Sefydlog i'r Rheolwyr Busnes eu cymryd yn ôl i'w grwpiau, ac ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid arnynt.

## 6 Defnyddio amser yn y Cyfarfod Llawn

### 6.1 Cwestiynau Amserol a Chwestiynau Brys

Ar ôl cytuno mewn egwyddor i gyflwyno gweithdrefn newydd i'r Aelodau holi cwestiynau amserol i'r Prif Weinidog ac Ysgrifenyddion y Cabinet yn y Cyfarfod Llawn, trafododd y Rheolwyr Busnes gynnig manwl ar gyfer gweithdrefn o'r fath.

Cytunodd y Pwyllgor i drafod y mater gyda'u grwpiau, a dychwelyd at hyn ar 7 Mawrth.

## 7 Papurau i’w nodi

### 7.1 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Llywydd

Nododd y Pwyllgor lythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cadarnhau bod y Pwyllgor yn bwriadu edrych yn fanylach ar gyfundrefnu cyfraith Cymru ac mai cam cyntaf y Pwyllgor fyddai cymryd tystiolaeth ar gyfundrefnu gan y Cwnsler Cyffredinol.